FY NHAITH I BATAGONIA – Eirian Sian Thomas (Abergele)

Siawns anhygoel oedd cael teithio i Batagonia gyda criw mor wych. Pan benderfynais rhoi cais i fynd ar y daith oedd yn cael ei threfnu gyda Mentrau Iaith y Gogledd a'r Urdd, doedd gen i ddim syniad beth oedd i ddod, a phwy arall oedd am ddod ar y trip. Ysgrifennais ddatganiad byr yn egluro pam fy mod eisio mynd ar y daith hon i'r Ariannin, a chael cyfweliad. Pan glywais fod fy nghyfnither Elin o Cwrt y Llyn, Pentrefoelas yn cael dod hefyd, roeddwn wrth fy modd, ac yn dechrau cyffroi am y trip oedd i ddod. Roedd deuddeg mis o baratoi a chodi arian i ddod cyn y daith, felly roedd y trip yn teimlo'n bell iawn i ffwrdd. Un o'r pethau llwyddais i wneud er mwyn codi arian i'r daith oedd cael fy noddi er mwyn cerdded deuddeg milltir gyda criw Conwy oedd yn mynd i Patagonia gyda ni. Llwyddais i godi llawer o arian, a mwynhau cerdded drwy chwarae gemau a dweud jôcs yr holl ffordd, roedd hwn yn ffordd dda o ddod i adnabod gweddill y criw o Gonwy oedd yn mynd ar y daith. Peth arall wnes i oedd cynnal cwis yn y clwb golff lleol lle roedd fy nheulu a phobl o'r gymuned leol wedi dod i fy nghefnogi. Hefyd rhoddom raffl ynddo gan gael llawer o noddwyr o'r siopau lleol i'm cefnogi hefyd. Ysgrifennais at deulu a ffrindiau er mwyn cael cymorth pellach ac roeddent yn glên dros ben. Drwy gydol y flwyddyn yr oeddwn yn cyflawni llawer o weithgareddau bychan eraill er mwyn codi gweddill yr arian. Erbyn Hydref 2009 yr oeddwn wedi llwyddo i godi digon o arian er mwyn mynd ar fy nhaith. Hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Erbyn hyn roedd y cyffro yn treiddio drwyddaf. Buan daeth yr amser i ddechrau pacio, ac anelu at Dde America. Roedd tair taith awyren i gyrraedd yno, a dwy daith mewn bws. O Bentrefoelas i Lundain, i Madrid, i Buenos Aires, i Esquel, i Drefelin. Roedd yn daith hir ond yn werth o erbyn y diwedd. Aeth y trafeilio yn sydyn gan ein bod yn griw mor hwylus, ac yn ffeindio gêm newydd i chwarae bob munud. Tai "lodge" yn Casa Verde oedd y lle cyntaf i ni aros. Lle bendigedig o brydferth, lle poeth, edrych allan drwy ffenest ein llofft i weld mynyddoedd yn y pellter, wedi'i gorchuddio fel blanced o eira gwyn. Anhygoel. Treuliom yr wythnos gyntaf yn fanno yn ymweld a Ysgol Gynradd yr Andes (a oedd yn cynnwys pump o ddisgyblion yn unig!), gweld Capel Seion, chwarae rygbi gyda'r hogiau lleol a chynnal cyngherddau bob yn ail noson. Roedd gymaint o fwynhad i gael yno, yn canu mewn cyngherddau, canu mewn bwytai a chanu ar fysiau cyhoeddus. Roedd gymaint o brofiadau gwych ar gael yno, gall geiriau ddim eu disgrifio. Un o'r nosweithiau mwyaf bythgofiadwy treuliasom yno oedd "Asado" ar fferm teulu'r "Greens". Mae cig yn un o'r bwydydd mwyaf poblogaidd ym Mhatagonia felly aml iawn mae "Asados" yn cael ei cynnal. Gwledd mawr ydy Asado, sydd yn cynnwys cig oen yn cael ei goginio ar bolyn metel, a'i osod yn led agored dros dân mawr yn yr awyr agored. Yn ogystal a'r cig yn bod yn flasus dros ben, roedd digonedd o fwyd i gael hefyd. Digon o ganu, digon o ddawnsio a digon o gerddoriaeth a chwerthin. Cawsom ni ganu gwych gan ferch y Greens ac chanu bendigedig gan Casi Wyn o Fangor oedd ar y trip gyda ni. Roedd Anna Pardanjac (hefyd ar y trip gyda ni) yn dda ar ddawnsio, felly dysgodd hi'r grŵp i glocsio. Llwyddodd swyddogion Menter Patagonia, oedd yn trefnu ein amserlen yno i ffitio gymaint a phosib i mewn, fel ein bod yn brysur bob dydd a phob nos. Roedd eira wedi disgyn dros nos erbyn ein bore olaf yn Trevelin, rhyfedd iawn wrth ystyried mai Gwanwyn oedd hi yno.

Er mwyn cyrraedd y lle nesaf ar yr wythnos olaf, roedd taith bws nos o naw awr i Drefelin. Cyrhaeddom y Gaiman y bore canlynol. Roedd yma siopau a bwytai gyda enwau Cymraeg yna, fel “Siop Tegannau”, “Siop Hufen Ia Gwahanol”, a bwytai fel “Cornel Winni” a “Breuddwyd” yr oeddem yn bwyta ynddynt. Mi wnaethom gyfarfod criw o bobl ifanc, oedd yn mynd i “Goleg Camwy”, yn cael gwersi yn Gymraeg ddwywaith yr wythnos yna. Roeddent yn griw gwych, er bod cyfathrebu yn anodd gan mai ychydig o Gymraeg a Saesneg yr oeddent yn siarad. Cawsom nosweithiau gyda nhw, mwy o ganu, mwy o ddawnsio a hyd yn oed mwy o gig.

Buom yn ymweld a Phorth Madryn, lle mae’r morfilod, a chael y fraint o weld dau forfil reit wrth y lan yn nofio.

Hefyd mi wnaethom ymweld a lle glaniodd y Cymry cyntaf yn yr Ariannin i weld anialwch llwyr. Wrth ymyl yr ogofau lle gysgodd y dynion hynny yr oedd amgueddfa bychan yn llawn gwybodaeth a hanes difyr am yr ymwelwyr cyntaf.

Un stori yr wyf i wedi bod yn adrodd i bawb ydy pan es i i’r siop frechdanau leol gyda’m cyfnither Elin i brynu brechdan diwna i ginio. Daeth hen ddynes reit fyr i mewn a gofyn mewn Cymraeg hollol glir “Ydych chi’n siarad Cymraeg te?”

Roeddwn i ac Elin wedi ei’n fferru yn ein hunion, roedd yn brofiad anhygoel cael clywed Cymraeg mor bur, miliynau o filltiroedd i ffwrdd. Cawsom sgwrs reit ddifyr am ychydig cyn i ni ofyn “Ble o Gymru ydych chi’n dod llu?”. Doedd yr hen ddynes fyr erioed wedi bod yn Gymru yn ei bywyd, ac roedd hi wedi dysgu Cymraeg i’w hun ar y we .... anhygoel. Roedd gweld ei balchder yn yr iaith yn rhagorol, o’i gymharu a gymaint o Saesneg sydd yng Nghymru. Daeth y daith yn fuan i ben a’r holl deithio adref o’n blaenau. Aeth yn llawer arafach am ein bod i gyd wedi blino. Er mor wych oedd y daith, neis oedd cael bod adref a gweld pawb, ac adrodd yr holl hanes.

Dwi’n siŵr bod yna dipyn o hanesion difyr eraill rwyf wedi eu gadael allan, ond mae’r profiad yn un sydd yn ormod i roi mewn geiriau.

Ar ôl cael cysgu adref, roeddwn yn barod i fynd yn ôl, ac yn colli’r criw yn barod.

Fuaswn yn annog unrhyw un i fynd yno, ac yn mynd yn ôl gyda’r criw unrhyw ddydd. Rwyf wedi gwneud criw agos iawn o ffrindiau ar y daith, ac yn dal i’w cyfarfod yn aml. Rwyf mor falch fy mod wedi cael y fraint o rannu’r profiad gyda criw mor dda. Roedd hon yn daith fy mywyd.